| | Cyf | Cam gweithredu | Disgrifiad | Perchennog / sefydliad arweiniol | Amserlen a Statws Presennol | Cymhwysedd Is-ardal |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd** | | | | | |
| 1 | FR1 | Gwaith atgyweirio i bont Nant Jac ar y Stryd Fawr | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud atgyweiriadau i'r rhan ganol o gwlfer Nant Jac a gafodd ei difrodi yn ystod llifogydd Rhagfyr-Ionawr. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Byr | • I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | Diweddariad Awst 2024 | <u>Crynodeb o Waith Cwblhau Cam 1 ac Archwiliad Dilynol:</u><br>**Digwyddiad Cwymp Rhannol:**<br>Yn dilyn adroddiadau o gwymp rhannol yn y cwlfer, mae Cam 1 y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau. Roedd Cam 1 yn cynnwys adnewyddu'n gynhwysfawr y rhan yr effeithiwyd arni, gan gynnwys gwaith ailbwyntio sylweddol ac adfer y tir gwag uwchben y cwlfer a leolir ar dir y capel.<br>**Cadernid Strwythurol:**<br>Mae asesiad ar ôl y gwaith atgyweirio yn cadarnhau bod cadernid strwythurol y bont bellach mewn cyflwr da.<br>**Archwiliad dilynol:** | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Nododd archwiliad dilynol, a gomisiynwyd ar ôl cwblhau Cam 1, ddiffygion ychwanegol yn y strwythur. Trefnwyd i'r diffygion hyn gael eu hadfer yng Ngham 2, ar ôl i gyllid ddod ar gael.<br>**Asesiad Risg:**<br>Ar hyn o bryd mae'r diffygion a nodwyd yn cael eu dosbarthu fel rhai risg isel i ganolig. Nid yw'r diffygion yn peryglu perfformiad neu gapasiti'r bont ar hyn o bryd.<br>Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.<br>Edward Rees, Uwch-beiriannydd,<br>**Cam gweithredu wedi'i gwblhau** | | | |
| 2 | FR2 | Parhau i ymchwilio i'r system draenio dŵr wyneb, y siambr a'r gollyngfeydd traeth | Ymchwiliadau i gadarnhau safonau gweithredol presennol y gollyngfeydd sy'n dod o siambrau'r system draenio dŵr wyneb. Asesu i gadarnhau a oes angen mesurau i wella'r broses gludo o'r system ac argymell unrhyw newidiadau i'r siambr a/neu'r gollyngfeydd. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor byr i ganolig - | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | Diweddariad Awst 2024 | Mae arolygon teledu cylch cyfyng o'r systemau draenio wedi cael eu cwblhau i raddau helaeth. | | | • |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru
Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn comisiynu gwaith i edrych ar faint o ddŵr sydd ar y grîn a faint mae angen i'r gollyngfeydd ei ollwng a pha mor gyflym. Bydd hyn wedyn yn llywio rhestr o opsiynau y byddwn yn eu trafod gyda'r gymuned.<br><br>Y nod yw cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i gyllido gwaith o fis Ebrill 2025 ymlaen | | | |
| | | Diweddariad Hydref 2024 | Mae Arcadis wedi'i gontractio i helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i werthuso'r siambr a'r ollyngfa a llunio rhestr o opsiynau a fyddai'n golygu bod dŵr wyneb yn cael ei ollwng mewn modd mwy cadarn ac effeithlon. | | | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae Arcadis yn dal i weithio ar hyn. Mae adroddiad opsiynau cychwynnol wedi gwerthuso perfformiad y gollyngfeydd ac effeithiau newid hinsawdd yn llawn. Mae gennym ddealltwriaeth fanwl o faint o ddŵr sydd angen ei ollwng a goblygiadau hynny o ran y llanw a newid hinsawdd.<br><br>Mae 3 opsiwn cychwynnol wedi'u cyflwyno ac mae 1 yn cael ei archwilio'n fwy manwl.<br><br>I gefnogi unrhyw waith cyfalaf yn 2025/26, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am £300k, ac mae 85% o'r swm hwnnw'n cael ei gyllido gan grant. | | | • |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | FR3 | Ymchwilio ymhellach i'r systemau carthffosiaeth a'r orsaf bwmpio | Mae ymchwiliad i gadarnhau'r cysylltiadau rhwng rhwydwaith dŵr brwnt Dŵr Cymru a rhwydwaith dŵr wyneb Cyngor Sir Caerfyrddin ar waith. Ar ôl deall y cysylltiadau, gellir asesu mesurau o ran eu heffeithiolrwydd a'u rhoi ar waith. | Dŵr Cymru | Tymor Byr / Tymor Canolig | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 gan Dŵr Cymru | Mae ymchwiliadau cychwynnol wedi'u cwblhau ac ni chanfuwyd unrhyw groesgysylltiadau.<br>Ceir problemau posibl pan fydd y system dŵr wyneb yn cael ei chloi gan y llanw gan fod y dŵr yn cronni yn y system dŵr brwnt ac yn ychwanegu at y broblem. Mae cadw'r ollyngfa yn glir yn amlwg yn rheoli'r risg hon.<br>**Cam gweithredu wedi'i gwblhau** | | | |
| 3 | FR4 | Parhau i ymchwilio i hydroleg dalgylch Nant Jac a rheoli tir | Astudiaethau i gadarnhau lleoliad hydrolegol y dalgylch ac effeithiau posibl arferion rheoli tir i fyny'r afon. | Cyngor Sir Caerfyrddin | | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | Diweddariad Awst 2024 | Nid yw'r gwaith wedi'i gomisiynu eto<br>Mae arferion rheoli tir yr ucheldiroedd yn broblem mewn sawl man ar draws Sir Gaerfyrddin. Nid oes pwerau uniongyrchol i orfodi tirfeddianwyr i weithredu mewn ffordd benodol. Mae gan CNC ganllawiau yn unig. | | | |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn siarad â phrifysgolion lleol i weld a oes ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio i ymchwilio i'r mater hwn a thynnu sylw ato. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae Arcadis wedi'i gomisiynu i gynnal ymarfer modelu ar Nant Jac gyda nodau penodol i ganfod lle fyddai storio o fewn y corff dŵr yn fwyaf effeithiol ac i egluro pryd a ble mae'r brif afon yn gorlifo dros y glannau.<br><br>Cyfarfu swyddogion y Cyngor â nifer o dirfeddianwyr ym mis Ionawr 2025 i drafod arferion defnydd tir ac i ymchwilio i nifer o ymyriadau gyda'r nod o leihau effaith newidiadau i arferion tir ar gyrsiau dŵr lleol.<br><br>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflwyno cais Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Lywodraeth Cymru am £300k i gefnogi unrhyw waith posibl yn 2025/26. | | | |
| 4 | FR5 | Parhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwelliannau i gwrs dŵr Ferry Point | Ymchwilio i'r gwelliannau y gellid eu gwneud i'r cwrs dŵr i wella cludo dŵr a lleihau'r risg y bydd y cwrs dŵr/ffos yn gorlifo dros y glannau. | Perchnogion y glannau / Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Byr | • Ferry Point |
| | | Diweddariad Awst 2024 | Cynhaliwyd sawl cyfarfod gyda thrigolion a chyfnewidiwyd llawer o negeseuon e-bost.<br><br>Dryswch o ran yr hyn y gall Cyngor Sir Caerfyrddin ei wneud i gefnogi'r gwaith hwn a thelerau'r gefnogaeth honno - mae hynny | | | • |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | wedi cael ei egluro a'r trigolion a pherchennog y glannau sydd bellach yn gyfrifol am weithredu. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Dim newid, nid oes cyllid i wneud y gwaith hwn a byddai'r gymhareb cost a budd yn golygu na fyddai modd derbyn unrhyw gyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae'n amddiffynfa forol, cwlfer a ffordd breifat ar lannau afon Tywi sydd â nifer o gyfyngiadau amgylcheddol. O'r herwydd, mae risg sylweddol a chost yn gysylltiedig â'r risg honno o ran torri ac atgyweirio amddiffynfa forol breifat. | | | • |
| | FR6 | Lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth | Ar ôl FR2 | Dŵr Cymru | Canolig | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Angen ymchwiliad mwy manwl i ganfod croesgysylltiadau posibl (bydd hyn yn cael ei adolygu ar ôl mis Ebrill 2025 wrth werthuso cyllidebau). | | | • |
| | FR7 | Ymchwilio i'r modd y mae Nant Jac yn cludo dŵr o bont y Stryd Fawr i'r môr. | | CNC | Canolig | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Cyfarfuwyd â'r tirfeddiannwr. Nid oes rhaglen cynnal a chadw ar waith ond ar ôl cyfarfod safle gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, nid yw CNC yn credu bod angen cael gwared â'r basle (carthu). | | | • |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Lester Fulcher, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau, 17 Chwefror 2025<br>**Cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 5 | FR8 | Asesu effeithiolrwydd gwella proses gludo Nant Jac o ben gogleddol Llansteffan i bont y Stryd Fawr | Potensial i wella proses gludo'r cwrs dŵr presennol neu ddargyfeirio dŵr i ffwrdd o'r derbynyddion yn fwy effeithiol. Cynnal a chadw'r system cwlferi i leihau'r risg ac effaith rhwystrau. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Canolig | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | | Mae angen i ni ddeall a yw gwella'r broses gludo yn beth da. A ddylem storio dŵr neu'n ei ollwng?<br>Gwaith ehangach i'w wneud | | | • |
| | | Diweddariad Medi 2024 | Mae astudiaeth modelu hydrolig wedi'i chomisiynu i ddeall yn gywir pa opsiynau fyddai'n gweithio orau | | | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Fel yr uchod, bydd y gwaith modelu hydrolig yn arwain hyn yn unol â hynny. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, a dylai gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2025 | | | • |
| | FR9 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o addasu cambr ffordd fynediad Dŵr Cymru | | Dŵr Cymru | | • |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Dim ond rhan fach o'r lôn sy'n perthyn i Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin sy'n berchen ar y gweddill. Rydym yn aros am amcangyfrif gan gontractwr ynghylch cerrig ar y lôn ac ar ôl cael y pris, byddwn yn ei rannu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin. Yn amlwg, mae unrhyw waith yn dibynnu ar gost. Richard Davies, Dŵr Cymru. | | | • |
| 6 | FR10 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o newid defnydd y Morfa i gadw dŵr yn ystod glaw trwm | Gallai Cyngor Sir Caerfyrddin asesu manteision newid defnydd y Morfa yn storfa lifogydd. Hefyd mae arglawdd uchel i'r Morfa sy'n atal dŵr rhag llifo o'r ffordd fynediad gefn i'r Morfa lle byddai'n draenio i'r system draenio dŵr wyneb. Gellid addasu hyn i ganiatáu draenio i'r Morfa. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Canolig | • Y Grîn |
| | | | Tymor Canolig.<br><br>Gallai ddeillio o'r camau gweithredu eraill yn FR2 ond mae gennym bryder am effeithiau dŵr daear. Mae angen gwneud mwy o waith. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae piesomedr wedi'i osod yn y grîn, ond nid oes unrhyw waith wedi'i wneud ynghylch effeithiolrwydd neu ymarferoldeb hyn.<br><br>Mae cais am gyllid grant i lunio achos busnes amlinellol strategol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26. Rydym yn ystyried hyn fel y mecanwaith i werthuso'r opsiwn hwn ymhellach. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | FR11 | Ymchwilio i'r potensial ar gyfer mesurau rheoli llifogydd yn naturiol i fyny'r afon i leihau llif llifogydd i gyrsiau dŵr, draeniau a rhwydweithiau carthffosydd. | Astudiaethau i gadarnhau lleoliad hydrolegol y dalgylch ac effeithiau posibl rheoli llifogydd yn naturiol ar berygl llifogydd i lawr yr afon. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Hir | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid o £300k ar gyfer 2025/26. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y gwaith ar FR4 yn cyfrannu at hyn. | | | |
| | **Mesurau Cydnerthu Cymunedol** | | | | | |
| 8 | CR1 | Parhau i wella'r broses cydlynu ymateb a gweithdrefnau cysylltu yn ystod llifogydd | Mae cyfarfodydd amlasiantaeth wedi'u cynnal i ddeall galluoedd, rolau a phrosesau. Bydd yr holl ymatebwyr a rhanddeiliaid a nodir yn yr adroddiad hwn yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod dealltwriaeth gyfunol o rolau a chyfrifoldebau cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Adolygu'r manylion cyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd yn ystod llifogydd (rhifau ffôn, pyrth ar-lein, ac ati) ac a yw'r gweithdrefnau presennol yn addas. Bydd hyn yn cynnwys y gweithdrefnau cysylltu y tu allan i oriau swyddfa. Argymell a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol. | Cyngor Sir Caerfyrddin / CNC / Dŵr Cymru / Gwasanaeth Tân | Tymor Byr | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |
| | | Diweddariad Cyngor Sir Caerfyrddin | Sefydlodd Cyngor Sir Caerfyrddin weithgor amlasiantaeth yn syth ar ôl y llifogydd a'i gadeirio. | | | • |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwnaethom drefnu a chadeirio cyfarfod cymunedol a chyfarfodydd un i un gyda thrigolion.<br><br>Gwnaethom adolygu dyletswyddau ein Swyddog Dyletswydd Digwyddiadau Llifogydd a diweddaru'r ddogfen ganllaw yn unol â hynny. Mae gennym bellach brosesau mwy manwl a ffurfiol ar gyfer monitro'r tywydd yn ystod yr wythnos waith.<br><br>Rydym wedi sefydlu grŵp uwch-arweinwyr ar gyfer tywydd garw lle mae risgiau tywydd garw a chamau paratoi yn cael eu trafod a'u cytuno.<br><br>Rydym wedi darparu hyfforddiant diweddaru ynghylch cynlluniau argyfwng i lawer o reolwyr canol ac uwch-reolwyr.<br><br>Rydym wedi cyflwyno ymarferion hyfforddi gweithredol, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch defnyddio pwmp.<br><br>Rydym wedi adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â galwadau yn ystod tywydd eithafol. Mae ffurflenni ar-lein a negeseuon dynamig wedi'u cyflwyno i reoli hyn.<br><br>Mae cardiau cyswllt wedi'u rhoi i'r holl drigolion er mwyn iddynt wybod â phwy y dylid cysylltu, a sut i gysylltu â nhw yn ystod tywydd eithafol.<br><br>Mae rhwystrau llifogydd wedi cael eu rhoi i'r gymuned i'w helpu i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â Nant Jac yn y tymor byr. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Diweddariad Dŵr Cymru | | | | • |
| | | Diweddariad CNC | Mae CNC yn parhau i weithio gyda phartneriaid amlasiantaeth a mynychu cyfarfodydd mewn perthynas â'r mater hwn. Mae CNC yn gweithredu llinell ddigwyddiadau 24 awr ar 0300 065 3000. | | | • |
| 9 | CR2 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Cynllun Llifogydd Cymunedol a Grŵp Llifogydd Cymunedol | Gellid sefydlu grŵp trigolion lleol gwirfoddol i weithio ar ran y gymuned ehangach i helpu i geisio lleihau effaith llifogydd yn y dyfodol. Er bod amcanion a chamau gweithredu'r grŵp yn cael eu diffinio gan y grŵp, nododd aelodau hŷn o'r gymuned eu bod angen cymorth gan bobl fwy abl i'w helpu o ran cydnerthedd llifogydd eiddo a mesurau glanhau – gellid ystyried hyn wrth ddiffinio mecanweithiau ymateb cymunedol yn y dyfodol. Mae mwy o ganllawiau ynghylch grwpiau gweithredu llifogydd cymunedol ar gael gan CNC a'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol. | Cymuned Llansteffan gyda chefnogaeth gan sefydliadau partner | Tymor Byr | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |
| | | | Mae angen i'r gymuned roi hyn ar waith, gyda chefnogaeth gan bartneriaid. Ni fydd yn gweithio os yw'n orfodol i drigolion ei wneud. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Ddim yn ymwybodol bod grŵp llifogydd ffurfiol yn cael ei sefydlu ond mae aelodau'r gymuned yn cynorthwyo gyda rhai tasgau llifogydd.<br><br>Mae grŵp WhatsApp yn cael ei ddefnyddio i gychwyn camau gweithredu a chymuned ymhlith aelodau'r gymuned. | | | |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cymuned Llansteffan sy'n gyfrifol am y cam gweithredu – cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 10 | CR3 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o roi Cynllun Gweithredu Pympiau ar waith ledled Sir Gaerfyrddin | Mae pwmp 8 modfedd newydd wedi cael ei brynu gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ardal Sir Gaerfyrddin. Penderfynu ar gynllun i ddefnyddio pympiau yn ystod llifogydd. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Byr | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |
| | | Diweddariad Medi 2024 | Mae pwmp wedi'i brynu.<br>Defnyddir proses monitro telemetreg ar lefelau dŵr i ddefnyddio'r pwmp os oes angen.<br>Byddwn yn monitro symudiad y tywod a'r dŵr wyneb sy'n cael ei ollwng ac yn clirio'r ollyngfa neu'n defnyddio pwmp yn unol â hynny. Mae’r goblygiadau cost yn sgil cael peiriant ar y traeth ar gyfer pob llanw uchel yn ormodol, felly mae sbardun mwy ymatebol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan ddefnyddio glawiad a'r llanw, wedi'i ffurfioli.<br>**Mae hyn bellach yn fusnes fel arfer - cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 11 | CR4 | Gwella ymwybyddiaeth y gymuned o'r hyn i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd | Nododd llawer o aelodau'r gymuned nad oeddent yn gwybod beth i'w wneud yn ystod llifogydd neu â phwy y dylid cysylltu. Argymhellir bod yr holl randdeiliaid yn dod at ei gilydd i alinio eu prosesau a datblygu gweithdy cydnerthedd llifogydd, y gellir ei gyflwyno i'r gymuned. Gall hyn roi sylw i gydnerthedd llifogydd | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda chefnogaeth yr | Tymor Canolig– heb ddechrau eto | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | eiddo, parodrwydd am argyfwng a phwyntiau cyswllt. Dylai Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd egluro'u polisi bagiau tywod i'r gymuned yn effeithiol. | Awdurdod Rheoli Risg | | |
| | | | Mae cardiau cyswllt wedi eu cynhyrchu i'w dosbarthu gan bwysleisio'r angen i roi gwybod ar-lein fel y ffordd orau o gyfathrebu.<br><br>Ychwanegwyd gwybodaeth at y wefan a rhoddwyd gwybod am hynny.<br><br>Ymwelwyd â pherchnogion eiddo unigol gan roi gwybod iddynt am PLP.  Mae rhai trigolion wedi cael rhwystrau llifogydd ar fenthyg i'w treialu. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Ar ôl y llifogydd ar 18 Rhagfyr, mae'n amlwg nad yw'r gymuned yn gydnerth o hyd ac mae angen gwneud mwy o waith mewn perthynas â hyn o ran rhoi rhybudd a gwybodaeth a chamau gweithredu brys.<br><br>Mae rhwystrau llifogydd a fydd yn darparu dibyniaeth yn sgil llifogydd prif afon Nant Jac yn cael eu prynu.<br><br>Mae dwy res o fagiau tywod wedi'u gosod ar ben y wal ar hyd Nant Jac i wella cydnerthedd llifogydd. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn ystyried cynllun peilot o ran telemetreg a allai roi rhybudd i'r gymuned pan fydd Nant Jac yn gorlifo. | | | |
| 12 | CR5 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod mesurau Cydnerthedd Llifogydd Eiddo | Gellir gosod mesurau cydnerthedd llifogydd eiddo i helpu i gadw dŵr allan, lleihau effaith difrod a galluogi proses adfer gyflymach yn dilyn llifogydd. | Cyngor Sir Caerfyrddin / Cymuned Llansteffan | Tymor Canolig | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |
| | | Diweddariad Hydref 2024 | Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda rhai trigolion. Mae 1 eiddo wedi cael ei ailadeiladu'n well. Rydym wedi rhoi benthyg gatiau llifogydd i drigolion eraill eu treialu. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Nid oes unrhyw gyllid ar gael ar hyn o bryd ar gyfer hyn ac er bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda pherchnogion tai unigol ynghylch cydnerthedd llifogydd eiddo, nid oes unrhyw waith pellach ar hyn o bryd.<br><br>Mae rhai perchnogion wedi prynu mesurau cydnerthedd llifogydd eiddo yn breifat. | | | |
| | CR6 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu system rhybuddion leol am lifogydd | | CNC | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Diweddariad Awst 2024 | Cafwyd adborth cynnar gan CNC nad oedd hyn byth yn opsiwn ac nad oedd ganddynt adnoddau i roi hyn ar waith. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae hwn yn ddalgylch bach iawn ac nid yw'n dechnegol ymarferol darparu gwasanaeth rhybuddio dibynadwy ar gyfer llifogydd afonol yn Llansteffan. Nid yw afon Nant Jac (a elwir hefyd yn Nant y Bwthyn) yn cael ei mesur gan CNC ac ni fyddai unrhyw gyfnod rhagarweiniol i roi rhybudd i'r gymuned.<br><br>**CAM GWEITHREDU WEDI'I GAU** | | | |
| | **Gweithgareddau Cynnal a chadw a Gweithredol** | | | | | |
| 13 | OM1 | Cwblhau gwaith atgyweirio ar gwlfer Nant Jac yn y Stryd Fawr | Cynnal archwiliad o'r rhan o Nant Jac sy'n gwlfer wrth bont y Stryd Fawr (y man lle mae'n troi'n brif afon). Mae difrod strwythurol wedi'i nodi ac mae angen ei gadarnhau. Bydd diffygion strwythurol a nodwyd yn cael eu cyfeirio at berchennog y glannau neu'r sefydliad priodol i'w cynnal a'u cadw / rhoi gwybod amdanynt. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Byr | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Crynodeb o Waith Cwblhau Cam 1 ac Archwiliad Dilynol:</u><br><br>**Digwyddiad Cwymp Rhannol:**<br><br>Yn dilyn adroddiadau o gwymp rhannol yn y cwlfer, mae Cam 1 y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau. Roedd Cam 1 yn cynnwys adnewyddu'n gynhwysfawr y rhan yr effeithiwyd arni gan gynnwys gwaith ailbwyntio sylweddol ac adfer y tir gwag uwchben y cwlfer a leolir ar dir y capel.<br><br>**Cadernid Strwythurol:**<br><br>Mae asesiad ar ôl y gwaith atgyweirio yn cadarnhau bod cadernid strwythurol y bont bellach mewn cyflwr da.<br><br>**Archwiliad dilynol:**<br><br>Nododd archwiliad dilynol, a gomisiynwyd ar ôl cwblhau Cam 1, ddiffygion ychwanegol yn y strwythur. Trefnwyd i'r diffygion hyn gael eu hadfer yng Ngham 2, ar ôl i gyllid ddod ar gael.<br><br>**Asesiad Risg:**<br><br>Ar hyn o bryd mae'r diffygion a nodwyd yn cael eu dosbarthu fel rhai risg isel i ganolig. Nid yw'r diffygion yn peryglu perfformiad neu gapasiti'r bont ar hyn o bryd.<br><br>**CWBLHAWYD** | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | OM2 | Gweithredu'r orsaf bwmpio | | Dŵr Cymru | Byr | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Rydym wedi adolygu'r risg weithredol yn yr orsaf ac wedi sefydlu cynllun gweithredu i anfon tanceri pan fo angen. Mae'r holl systemau wedi'u diweddaru gyda Dŵr Cymru i sbarduno'r cynllun hwn. Richard Davies Dŵr Cymru<br>**Adolygiad wedi'i gynnal a chynllun ar waith. Mae hyn bellach yn fusnes fel arfer, cam gweithredu wedi'i gau** | | | • |
| | OM3 | Cadarnhau capasiti'r orsaf bwmpio | | Dŵr Cymru | Byr | • |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | | | | |
| 14 | OM4 | Parhau i glirio'r tywod o'r falf hwyadbig a chefnfur yr Ollyngfa Ganol | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn clirio'r Ollyngfa Ganol yn rheolaidd i ganiatáu i'r system draenio dŵr wyneb ollwng yn effeithiol. Bydd angen gwneud hyn nes bod OM7 wedi'i gwblhau, a hynny drwy sbardunau monitro dalgylchoedd, yn hytrach na phan fydd y llanw ar ei uchaf. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor byr - ar waith | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | Diweddariad Medi 2024 | Cynllun wedi'i roi ar waith a'i gyflawni | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Bydd hyn yn parhau fel busnes fel arfer nes y cytunir ar ateb ar gyfer perfformiad hirdymor y gollyngfeydd traeth a'i roi ar waith. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 15 | OM5 | Parhau i gynnal a chadw draeniau'r priffyrdd | Parhau i adolygu a chynnal a chadw draeniau'r priffyrdd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn clirio ac yn cynnal a chadw'r system draenio priffyrdd yn amlach. Gwneud hyn ar y cyd ag OM8. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor byr - ar waith | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn<br>• Ferry Point |
| | | | Rwy'n awgrymu mai archwiliadau wythnosol yn y gaeaf ac archwiliadau misol yn yr haf fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli perygl llifogydd *a bod hyn yn cynnwys y gylïau ochr yn ochr â'r archwiliadau gridiau draenio* bob wythnos drwy'r gaeaf. Yna gellir cynllunio ymweliadau cynnal a chadw yn ôl yr angen yn seiliedig ar wybodaeth yr archwiliad – Darren King 16/8/24 | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Y dull mwyaf effeithiol o reoli'r gylïau dŵr wyneb priffyrdd yw eu glanhau'n flynyddol. Fodd bynnag, oherwydd bod yr ardal yn dueddol o gael llifogydd, ystyrir bod trefniant archwilio gwell yn drefn reoli effeithiol yn y dyfodol. Bydd y Timau Cylchol Cynnal a Chadw Priffyrdd yn cynnal archwiliad wythnosol o'r gylïau priffyrdd ar yr un pryd ag y maent yn cynnal eu harchwiliadau wythnosol o gridiau draenio. Os ydynt yn dod o hyd i unrhyw symiau sylweddol o silt yn y gylïau yn ystod yr archwiliad, yna bydd trefniadau glanhau gylïau ad-hoc ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith. Ystyrir bod y drefn glanhau ac archwilio hon yn ffordd bragmatig ac effeithiol o reoli'r seilwaith draenio dŵr | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | wyneb priffyrdd yn yr ardal hon – Darren King, Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd (11 Chwefror 2025)<br><br>**Mae'r drefn cynnal a chadw wedi'i chytuno a'i chyflawni – mae hyn bellach yn fusnes fel arfer - Cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 16 | OM6 | Parhau i gynnal a chadw Nant Jac (y brif afon) | Parhau i gynnal a chadw ac adolygu Nant Jac. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ag unrhyw lystyfiant a rhwystrau artiffisial yn y nant. Archwiliad i gael gwared ag unrhyw rwystrau presennol a gwaith cynnal a chadw ac archwiliadau rheolaidd yn y dyfodol. | CNC | Tymor Byr | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | Diweddariad Chwefror 2025 | Archwiliad bob chwarter a rheoli llystyfiant yn unol â hynny.<br><br>Nid oes unrhyw weithgaredd rheoli basle yn rhan o raglen cynnal a chadw CNC yn Llansteffan, ond bydd cyfarfod gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i adolygu hyn yn cael ei gynnal ym mis Chwefror.<br><br>Mae CNC/Cyngor Sir Caerfyrddin wedi adolygu hyn yn ystod archwiliad safle dyddiedig 11/02 ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen rheoli basle – Lester Fulcher, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau, 17 Chwefror 2025<br><br>**Mae'r drefn wedi'i thrafod; mae hyn bellach yn fusnes fel arfer - CAM GWEITHREDU WEDI'I GAU** | | | |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Dŵr Cymru
Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | OM7 | Parhau i gynnal a chadw gollyngfeydd y system draenio dŵr wyneb | Parhau â'r drefn archwilio ac adolygu asedau. Ar hyn o bryd mae'r Ollyngfa Ganol yn cael ei chloddio pan fydd y llanw ar ei uchaf. Datblygu trefn cynnal a chadw gynaliadwy ar gyfer y gollyngfeydd traeth i'w hatal rhag cael eu claddu neu eu rhwystro nes bod ateb hirdymor yn cael ei ganfod i reoli'r llif o'r siambrau dŵr wyneb yn well. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor byr - ar waith | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | | Yn gysylltiedig ag OM4 a CR3 – gan ddefnyddio data telemetreg a glawiad byddwn yn adweithiol ac yn cloddio'r ollyngfa pan fo angen.<br><br>**Bydd hyn yn parhau fel busnes fel arfer nes y cytunir ar ateb ar gyfer perfformiad hirdymor y gollyngfeydd traeth a'i roi ar waith - Cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 18 | OM8 | Parhau i gynnal a chadw draeniau'r priffyrdd a'r system draenio dŵr wyneb | Parhau ac adolygu trefn archwilio asedau Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r system dŵr wyneb wedi'i glanhau gyda jetiau ac mae arolwg teledu cylch cyfyng wedi'i gynnal i ddeall cysylltiadau, cyflwr a chapasiti. Mae trigolion yn nodi bod draeniau priffyrdd ar hyd Water Lane yn cael eu blocio'n aml a'u bod wedi rhoi gwybod am hyn yn rheolaidd. Cyngor Sir Caerfyrddin i gynnal gwiriadau a gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn ôl yr angen. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tymor Byr- | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | | Fel OM5 | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Mae'r drefn cynnal a chadw wedi'i chytuno a'i chyflawni – mae hyn bellach yn fusnes fel arfer - Cam gweithredu wedi'i gau** | | | |
| 19 | OM9 | Ymchwilio i arferion rheoli tir | Ymchwilio i arferion rheoli tir a'r potensial i effeithio ar ddŵr ffo a llwythi gwaddodion yn y dalgylch.<br>I'w arwain gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyda chefnogaeth CNC. Gallai'r gymuned leol neu'r grŵp llifogydd fod yn rhan o gasglu data. | Cyngor Sir Caerfyrddin / CNC / Cymuned Llansteffan | Tymor Hir | • Y Grîn<br>• I fyny'r afon o'r Grîn |
| | | | Mae hwn yn fater polisi cenedlaethol ac nid oes pwerau i sefydliadau partner orfodi tirfeddianwyr i weithredu. | | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Nid yw'r datganiad uchod wedi newid.<br>Fel FR4 - Cyfarfu swyddogion y Cyngor â nifer o brif dirfeddianwyr ym mis Ionawr 2025 i drafod arferion defnydd tir ac i ymchwilio i nifer o ymyriadau gyda'r nod o leihau effaith newidiadau i arferion tir ar gyrsiau dŵr lleol<br>Mae cais Rheoli Llifogydd yn Naturiol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am £300k ar gyfer 2025/26<br>Eglurodd CNC mai canllawiau ac arferion gorau yn unig sydd ganddyn nhw. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | OM10 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod gorchuddion tyllau archwilio newydd | Mae gorchmynion gwaith wedi'u creu a dylai'r gwaith gael ei wneud cyn diwedd Chwefror. | Dŵr Cymru | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae cyfarwyddyd wedi'i roi i gontractwr gwblhau'r gwaith hwn. Dylid ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2025. | | | |
| | OM11 | Archwiliadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd o gwrs dŵr Ferry Farm / Ferry Point | | Perchnogion y glannau | | |
| | | Diweddariad Ionawr 2025 | Mae'r trigolion a'r tirfeddianwyr wedi bod yn cadw llygad ar hyn yn ystod y gaeaf ac yn cyflawni eu dyletswyddau fel perchnogion y glannau.<br><br>Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i gefnogi'r gymuned drwy wneud gwaith cynnal a chadw ar y gollyngfeydd ar hyd y traeth yn y tymor byr i'r tymor canolig. Nid yw pob un o'r gollyngfeydd traeth yn asedau Cyngor Sir Caerfyrddin ac nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar yr Awdurdod i reoli asedau preifat. Fodd bynnag, pan fydd gennym beiriant yn clirio'r tywod o flaen ein hasedau, rydym yn barod i ddefnyddio'r adnodd hwnnw a dadflocio'r gollyngfeydd preifat ar hyd y traeth a hyd at Ferry Point. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Mae'r drefn cynnal a chadw wedi'i hegluro – mae hyn bellach yn fusnes fel arfer - Cam gweithredu wedi'i gau** | | | |